Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Ein gwaith ar gydraddoldeb rhwng 2022 a 2023

## Beth rydyn ni wedi'i wneud i gyrraedd ein nodau



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Blynyddol 2022-2023 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024**'.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

**Mai 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas** trwm yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 15**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I ddarganfod mwy cysylltwch â:

**Gwefan:** www.celf.cymru/cy

**Email:** cyfathrebu@celf.cymru

**Phone:** 03301 242733

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Cydraddoldeb a ni** .......... **4**

Ein cynllun cydraddoldeb .......... 6

**Beth wnaethon ni rhwng 2022 a 2023** .......... **8**

**Am ein tîm** .......... **11**

**I bwy rydyn ni wedi rhoi arian** .......... **12**

**Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol** .......... **14**

**Geiriau anodd** .......... **15**

# Cydraddoldeb a ni

Ni ydy Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydyn ni yn rhoi arian i gefnogi'r celfyddydau yng Nghymru.



Yng Nghymru mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i sefydliadau fel ni gefnogi **cydraddoldeb**.


Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn gyfartal ac yn deg.



Mae'r gwaith yma yn bwysig i ni. Rydyn ni eisiau i'r celfyddydau fod i bawb yng Nghymru.




Mae'r adroddiad yma am y gwaith rydyn ni wedi ei wneud ar gyfer **cydraddoldeb** yn 2022 a 2023.




Mae gennym ni gynllun mwy o’r enw **Er budd pawb**. Mae’n dweud sut y byddwn ni yn helpu mwy o bobl i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau.




Dydy rhai pobl ddim yn cymryd rhan yn y celfyddydau cymaint ag eraill.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr eu bod nhw yn gallu cymryd rhan mewn creu, gwylio a gweithio mewn celf.

# Ein cynllun cydraddoldeb




Yn 2020, fe wnaethon ni gynllun mawr am beth fydden ni yn ei wneud am **gydraddoldeb** rhwng 2020 a 2024.

Mae gan y cynllun hwn **5 prif nod**. Dyma nhw:



1. Gweithio gydag eraill a chymunedau Dysgu oddi wrthyn nhw.



2. Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau yn dod o grwpiau â **nodweddion gwarchodedig**.

   Mae **nodweddion gwarchodedig** yn ymwneud â chyfraith ynglŷn â thrin pobl yn gyfartal ac yn deg. Mae rhai grwpiau o bobl yn gallu cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

   - Oed
   - Anabledd
   - Rhywedd
   - Bod yn feichiog neu gael babi
   - Hil
   - Crefydd neu gred
   - Rhyw
   - Cyfeiriadedd rhywiol
   - Bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil.



3. Gweithio i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu talu'n gyfartal ac yn deg.



4. Helpu mwy o bobl **amrywiol** i gael cyllid i wneud eu celf eu hunain.

Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, pobl:

- Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- Â galluoedd gwahanol
- Credu mewn gwahanol bethau



5. Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl **amrywiol** yn gallu ymuno yn y celfyddydau.

# Beth wnaethon ni rhwng 2022 a 2023

Rhai o'r prif bethau wnaethon ni oedd:




Roedd gennym ni gynllun o'r enw **Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltu**. Ar gyfer hyn fe wnaethon ni weithio gydag **Amgueddfa Cymru**. Roedden ni'n gweithio ar stopio hiliaeth.





Fe wnaethon ni weithio gyda grŵp arall i ddarganfod sut i wneud lleoliadau'n well i bobl anabl.

Fe wnaethon ni helpu mwy o theatrau a chanolfannau celf i ymuno â'n cynllun **Hynt**. Mae hwn yn wasanaeth i gefnogi ymwelwyr anabl.



Fe wnaethon ni gael arian i roi grantiau i bobl i wneud celf am hiliaeth.




Fe wnaethon ni wella ein cronfa **Camau Creadigol**, fel bod artistiaid yn gallu cael mwy o help gyda'u gwaith.



Fe wnaethon ni roi dros 500 mil o bunnoedd o'r gronfa **Camau Creadigol**.



Mae Andrew Ogun yn gweithio i ni fel **Asiant dros Newid**. Dyma fideo am ei waith.

AMGUEDDFA CYMRU

Fe wnaeth Andrew weithio gydag **Amgueddfa Cymru** ar ddigwyddiadau i artistiaid Du a phrosiect i gerddorion Du.



Fe wnaethon ni ofyn i bobl beth oedden nhw’n feddwl am **Hynt**. Roedd y rhan fwyaf yn dweud pethau da, fel ei fod yn eu helpu i deimlo’n fwy hapus ac yn fwy hyderus.



Aeth bron i 150 mil yn fwy o bobl i leoliadau celfyddydol oherwydd **Hynt**.




Fe wnaethon ni dudalen we **Cymorth Hygyrchedd** ar gyfer pobl sydd angen mwy o help i wneud cais am grant. Gallwch ddod o hyd i Gymorth Hygyrchedd yma.

# Am ein tîm



Mae'r rhan fwyaf o'n gweithwyr yn dweud eu bod yn **heterorywiol**, tua 7 o bob 10 o bobl.

Mae **heterorywiol** yn meddwl:

- menyw sy'n ffansio ac yn caru dynion neu
- dyn sy'n ffansio ac yn caru merched.



Mae'r rhan fwyaf o'n gweithwyr yn dweud eu bod yn Gymry.



Mae tua 9 o bob 10 o'n gweithwyr yn wyn.



Mae'r rhan fwyaf o'n gweithwyr rhwng 40 a 49 oed.



Rydyn ni yn cyflogi mwy o bobl anabl a phobl â **nodweddion gwarchodedig**. Roedd cynnydd bach yn nifer y bobl o grwpiau gwarchodedig eraill.

# I bwy rydyn ni wedi rhoi arian




Fe wnaethon ni roi mwy na 15 miliwn o bunnoedd i dros 500 o brosiectau.



Roedd 1 o bob 4 prosiect oedd wedi cael arian gennym ni ar gyfer pobl fyddar neu anabl.



Roedd 1 o bob 5 prosiect oedd wedi cael arian gennym ni ar gyfer pobl **amrywiol**.



Roedd tua 1 o bob 5 prosiect ar gyfer plant a phobl ifanc.




Roedd dros 1 o bob 5 prosiect ar gyfer pobl **LHDTQ+**.

Mae **LHDTQ+** yn sefyll am grwpiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, queer a grwpiau eraill.

Dyma gymuned o bobl sy'n rhannu profiadau oherwydd pwy ydyn nhw a phwy maen nhw'n eu caru.



Roedd merched wedi cael mwy na hanner yr arian.

# Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol



Dyma grŵp o'n gweithwyr sy'n edrych ar y gwaith rydyn ni yn ei wneud ar **gydraddoldeb**.



Maen nhw yn edrych i weld os ydyn ni yn cyrraedd ein nodau ac yn adrodd ar beth rydyn ni wedi'i wneud.



Rydyn ni yn siarad â grwpiau eraill am ein nodau **cydraddoldeb**.



Mae hyn yn ein helpu ni i ddysgu oddi wrth ein gilydd a gwneud yn well.



Mae'r gwaith yma yn bwysig i ni nawr ac yn y dyfodol.

# Geiriau anodd

### Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, pobl:

- Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- Â galluoedd gwahanol
- Credu mewn gwahanol bethau

### Cydraddoldeb

Mae hyn yn meddwl trin pobl yn gyfartal ac yn deg.

### LHDTQ+

Mae LHDTQ+ yn sefyll am grwpiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, queer a grwpiau eraill.

Dyma gymuned o bobl sy'n rhannu profiadau oherwydd pwy ydyn nhw a phwy maen nhw'n eu caru.

## Nodweddion gwarchodedig

Mae nodweddion gwarchodedig yn ymwneud â chyfraith ynglŷn â thrin pobl yn gyfartal ac yn deg. Mae rhai grwpiau o bobl yn gallu cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

- Oed
- Anabledd
- Rhywedd
- Bod yn feichiog neu gael babi
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil.